Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# CMC rhanbarthol y pen yn yr UE

26 Mawrth 2013

## Cyflwyniad

Mae'r nodyn hwn yn grynodeb a dadansoddiad byr o'r ffigurau CMC rhanbarthol y pen a gyhoeddwyd gan Eurostat (swyddfa ystadegau'r UE) ar 21 Mawrth 2013.[1]

## Y prif ffigurau

- Yn 2010, roedd CMC y pen **yng Nghymru** yn ei gyfanrwydd yn 81% o gyfartaledd yr UE27, ac roedd yr isaf o 12 ardal enwau unedau tiriogaethol at ddibenion ystadegaeth-1 (NUTS-1) y DU.[2]
- Yn 2010, roedd CMC y pen **yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd** yn 70% o gyfartaledd yr UE27 ac roedd yr isaf o 37 ardal NUTS-2 y DU.
- Yn 2010, roedd CMC y pen **yn Nwyrain Cymru** 100% o gyfartaledd yr UE27 ac roedd yn unfed ar ddeg ar y rhestr o gyfartaleddau uchaf ardaloedd NUTS-2 y DU, ynghyd ag ardaloedd eraill.
- Yn 2009, roedd ffigurau CMC y pen Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru ar eu hisaf erioed, yn gymharol â chyfartaledd yr UE27, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2009. Yn 2010, cafwyd gwelliant yn ffigurau CMC y pen Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru o un pwynt canran o'u cymharu â'r ffigurau yn 2009.
- Cafodd nifer o ranbarthau NUTS-2 yr UE27 ganlyniadau union yr un fath â Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 2010, gan gynnwys Dolnośląskie yng Ngwlad Pwyl, Voreio Aigaio yng Ngwlad Groeg, a Střední Čechy yn y Weriniaeth Tsiec.
- Nodyn: mae pob ffigur yn y ddogfen hon wedi ei nodi yn nhermau safonau pwêr prynu (PPS) sy'n arian artiffisial sy'n adlewyrchu gwahaniaethau mewn lefelau prisiau cenedlaethol nad yw cyfraddau cyfnewid yn eu dangos. Mae'r uned hon yn caniatáu cymhariaeth ystyrlon o feintiau dangosyddion economaidd rhwng y gwledydd.

## Bod yn gymwys i gael Cronfeydd Strwythurol

Mae data CMC (ar sail cyfartaledd dros dair blynedd) yn cael eu defnyddio i benderfynu'r 'categori o gymorth' y mae rhanbarthau yn gymwys i'w gael o dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r mapiau cymorth rhanbarthol ar gyfer cymorth i'r gwladwriaethau. Fodd bynnag, nid yw ffigurau 2010 yn debygol o fod yn arwyddocaol yn hyn o beth, gan fod disgwyl mai data rhanbarthol 2007-2009 a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rownd ariannu 2014-2020, yn dilyn y cytundeb ar Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-2020 a gafwyd yn y Cyngor Ewropeaidd ar 8 Chwefror 2013 (cyn y cafodd data 2010 eu rhyddhau).

---

[1] Datganiad i'r Wasg, ***Regional GDP***, 21 Mawrth 2013. Mae rhagor o ddata ar wefan Eurostat **yma**.
[2] Mae ystadegau NUTS yn cynnig ystadegau unffurf o'r ystadegau rhanbarthol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Mae tair lefel NUTS yn y DU. Y rhain yw:
- NUTS 1: Rhanbarthau Swyddfeydd y Llywodraeth a'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon
- NUTS 2: 37 ardal, a elwir yn aml yn is-ranbarthau.
- NUTS 3: 133 ardal, grwpiau o awdurdodau neu ardaloedd unedol, a elwir hefyd yn ardaloedd lleol.

# Dadansoddiad o'r Perfformiad, 2000 - 2010

Mae Tabl 1 yn dangos CMC y pen fel canran o gyfartaledd UE27 y DU, ardaloedd NUTS-1 a NUTS-2 Cymru, cyn ranbarthau 'Amcan Un' y Du a'r unig ardal 'Gydgyfeirio' yn y DU, Cernyw ac Ynysoedd Sili.

**Tabl 1: CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr UE27** (ar gyfraddau cyfnewid ar baredd pŵer prynu)

(% o gyfartaledd yr UE27)

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 119 | 119 | 120 | 121 | 123 | 123 | 121 | 117 | 113 | 111 | 111 |
| **Glannau Mersi** | 89 | 88 | 92 | 91 | 91 | 90 | 88 | 85 | 82 | 82 | 81 |
| **De Swydd Efrog** | 87 | 88 | 90 | 90 | 93 | 92 | 91 | 88 | 82 | 81 | 81 |
| **Cernyw ac Ynysoedd Sili** | 70 | 71 | 78 | 80 | 79 | 76 | 79 | 75 | 74 | 72 | 72 |
| **Ucheldiroedd ac Ynysoedd** | 86 | 86 | 88 | 90 | 94 | 94 | 89 | 88 | 86 | 86 | 87 |
| **Cymru** | 89 | 89 | 90 | 91 | 92 | 91 | 89 | 85 | 81 | 80 | 81 |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | 75 | 74 | 76 | 76 | 77 | 78 | 76 | 73 | 70 | 69 | 70 |
| **Dwyrain Cymru** | 113 | 116 | 114 | 117 | 118 | 113 | 111 | 107 | 102 | 99 | 100 |

Ffynhonnell: Eurostat

Mae Tabl 1 yn dangos:

- Yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2010, roedd CMC y pen yng Nghymru fel canran o gyfartaledd yr UE27 ar ei uchaf yn 92% yn 2004. Ers hynny, mae'r CMC wedi gostwng mewn perthynas â chyfartaledd yr UE27 i 81% yn 2010. Yn yr un modd, mae ffigur Dwyrain Cymru wedi gostwng gan 18 o bwyntiau canran ers 2004.
- Rhwng 2005 a 2010, mae CMC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd fel canran o gyfartaledd yr UE27 wedi gostwng gan 8 o bwyntiau canran.

  Yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2010, mae CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr UE27 wedi gostwng yng Nghymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru (gan 8, 5 a 13 o bwyntiau canran, yn y drefn honno).
- Er bod ffigurau Cernyw ac Ynysoedd y Sili ar gyfer y cyfnod rhwng 2004 a 2010 yn dangos gostyngiad cymharol â chyfartaledd yr UE27, mae CMC y pen y rhanbarth wedi gwella ychydig yn gymharol â chyfartaledd yr UE27 dros yr 11 o flynyddoedd yn y tabl, gan godi o 70% yn 2000 i 72% yn 2010.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**Tabl 2: CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr UE27– ardaloedd NUTS-2 a NUTS-3 Cymru** (ar gyfraddau cyfnewid ar baredd pŵer prynu)
(% o gyfartaledd yr UE27)

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 119 | 119 | 120 | 121 | 123 | 123 | 121 | 117 | 113 | 111 | 111 |
| **Cymru** | 89 | 89 | 90 | 91 | 92 | 91 | 89 | 85 | 81 | 80 | 81 |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | 75 | 74 | 76 | 76 | 77 | 78 | 76 | 73 | 70 | 69 | 70 |
| Ynys Môn | 57 | 65 | 62 | 64 | 67 | 68 | 66 | 64 | 63 | 64 | 62 |
| Gwynedd | 75 | 77 | 85 | 88 | 84 | 88 | 85 | 80 | 78 | 77 | 72 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 76 | 73 | 75 | 75 | 78 | 78 | 73 | 70 | 69 | 67 | 67 |
| De Orllewin Cymru | 71 | 72 | 65 | 68 | 69 | 76 | 75 | 72 | 65 | 67 | 67 |
| Y Cymoedd Canolog | 72 | 72 | 79 | 76 | 76 | 73 | 70 | 69 | 65 | 64 | 69 |
| Cymoedd Gwent | 68 | 65 | 66 | 64 | 69 | 66 | 66 | 61 | 59 | 59 | 61 |
| Pen-y-bont ar Ogwr a Phort Talbot | 82 | 78 | 84 | 82 | 78 | 84 | 82 | 82 | 81 | 77 | 81 |
| Abertawe | 95 | 92 | 97 | 95 | 98 | 95 | 94 | 84 | 81 | 82 | 83 |
| **Dwyrain Cymru** | 113 | 116 | 114 | 117 | 118 | 113 | 111 | 107 | 102 | 99 | 100 |
| Sir Fynwy a Chasnewydd | 117 | 120 | 110 | 119 | 126 | 123 | 122 | 109 | 107 | 105 | 105 |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | 124 | 130 | 128 | 133 | 133 | 126 | 122 | 122 | 117 | 112 | 112 |
| Sir y Fflint a Wrecsam | 104 | 105 | 106 | 101 | 99 | 98 | 100 | 96 | 87 | 90 | 92 |
| Powys | 84 | 86 | 91 | 96 | 92 | 81 | 80 | 78 | 70 | 65 | 67 |

Ffynhonnell: Eurostat

Dylid nodi gall patrymau cymudo ddylanwadau'n fawr ar ffigurau CMC y pen mewn rhai rhanbarthau. Mae nifer net y rhai sy'n cymudo i mewn i'r rhanbarthau hyn yn cynyddu'r lefel gynhyrchu i lefel na fyddai'n bosibl i'r boblogaeth weithredol ei chyrraedd ar ei phen ei hun. Y canlyniad yw bod CMC y pen yn ymddangos wedi ei oramcangyfrif yn y rhanbarthau hyn, ac wedi ei amcangyfrif yn rhy isel yn y rhanbarthau â chymudo allan ohonynt. Bydd 'effaith y cymudo' yn cael dylanwad mwy ar lefelau daearyddol is, a dylid ystyried hynny wrth edrych ar ffigurau lefel NUTS 3.

Yn ystod y cyfnod o 11 mlynedd yn y tabl, dangosodd pob ardal NUTS 3, oni bai am Ynys Môn, ostyngiad yn y CMC y pen yn gymharol â chyfartaledd yr UE27.

Yn 2010, roedd gan Gymoedd Gwent y CMC ail isaf y pen fel canran o gyfartaledd yr UE o holl ranbarthau NUTS-3 y DU. Dim ond ffigur Cilgwri a oedd yn is, sef 57%.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **CMC rhanbarthol y pen yn yr UE**, cysylltwch â **Ben Stokes** (**ben.stokes@Cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm**

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost at **Research.Service@cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant gynghori'r cyhoedd. **Rhif yr ymholiad: 13/0715**